



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Canllawiau technegol ar gyfer sefydliadau addysg bellach arbenigol

Sicrhau darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu

## Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 256/2019  
Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2020  
Yn disodli dogfen wybodaeth 221/2017

# Canllawiau technegol ar gyfer sefydliadau addysg bellach arbenigol

## Cynulleidfa

Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu'n bennaf at sefydliadau addysg bellach arbenigol. Gall fod o ddi-ddordeb hefyd i bartïon eraill a fydd yn cynnwys Gyrfa Cymru, penaethiaid sefydliadau yn y sector addysg bellach yng Nghymru, pobl ifanc, rhieni/gofalwyr, awdurdodau addysg lleol, adrannau gwasanaethau cymdeithasol a byrddau iechyd lleol.

## Trosolwg

Diben y ddogfen hon yw cyflwyno cyngor a chanllawiau ar ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran rôl sefydliadau addysg bellach arbenigol ar gyfer y broses asesu o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, gan gynnwys canllawiau ar y gweithdrefnau gweithredol y dylid eu dilyn wrth wneud darpariaeth.

## Camau i'w cymryd

Mae'n ofynnol bod sefydliadau addysg bellach arbenigol yn ystyried y cyngor a'r canllawiau a amlinellwyd yn y ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:  
Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol  
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
e-bost: [Post16ALN@llyw.cymru](mailto:Post16ALN@llyw.cymru)



DLIC\_Addysg



Facebook/AddysgCymru

## Copiâu ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/sicrhau-addysg-ol-16-i-bobl-ag-anawsterau-dysgu-canllawiau-i-sefydliadau-addysg-bellach-arbenigol>.

## Dogfennau cysylltiedig

*Sicrhau darpariaeth i bobl ifanc ag anawsterau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol* (2019)  
*Canllawiau technegol ar gyfer Gyrfa Cymru* (2019)

## **Cynnwys**

<b>Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
<b>Cyd-destun statudol</b>	<b>3</b>
<b>Asesiad Adran 140</b>	<b>4</b>
<b>Gofynion adrodd ar gyfer rhaglenni astudio y cytunwyd arnynt</b>	<b>11</b>
<b>Ffurflen manylion darpariaeth addysg bellach arbenigol</b>	<b>18</b>
<b>Ffurflen adrodd cynnydd</b>	<b>22</b>
<b>Ffurflen Gwneud Cais am Newid</b>	<b>24</b>
<b>Ffurflen hysbysu am ddigwyddiad</b>	<b>27</b>
<b>Ffurflen absenoldeb neu dynnu'n ôl</b>	<b>28</b>
<b>Ffurflen cais am estyniad</b>	<b>29</b>
<b>Ffurflen cyrchfan</b>	<b>31</b>

# Cyflwyniad

1. Diben y ddogfen hon yw cyflwyno cyngor a chanllawiau ar ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfraniad sefydliadau addysg bellach arbenigol at y broses asesu o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, er budd sefydliadau addysg bellach arbenigol<sup>1</sup>. Yn ogystal, mae'r ddogfen hon yn cyflwyno canllawiau ar y gweithdrefnau gweithredol y dylai sefydliadau AB arbenigol gydymffurfio â nhw wrth wneud darpariaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.
2. Mae'r polisi a'r broses a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i benderfynu ar ariannu lleoliadau ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed ag anawsterau dysgu (i gael diffiniad, gweler yr adran 'cyd-destun statudol' ar dudalen 3) sydd angen mynediad at ddarpariaeth arbenigol wedi'u cyflwyno yn y canllawiau polisi '*sicrhau darpariaeth i bobl ifanc ag anawsterau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol*'<sup>2</sup>.
3. Canllawiau anstatudol yw'r rhain. Fodd bynnag, bydd dilyn y canllawiau hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i sicrhau bod asesiadau'n cydymffurfio ag adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 a bod unrhyw leoliadau dilynol yn cydymffurfio â gweithdrefnau ariannol Llywodraeth Cymru.
4. Nid yw'r ddogfen hon yn disodli'r rhwymedigaethau cytundebol a amlinellwyd yn y Cytundeb Ariannu<sup>3</sup> y mae'n rhaid i sefydliadau addysg bellach arbenigol ei lofnodi er mwyn cael mynediad at leoliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru.
5. Gwahoddodd Llywodraeth Cymru Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddisodli'r gyfraith bresennol sy'n ymwneud ag addysg ôl-16 i bobl ifanc ag anawsterau dysgu â deddfwriaeth i gefnogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Cafodd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ei basio gan y Cynulliad ar 12 Rhagfyr ac fe ddaeth yn Ddeddf ar 24 Ionawr 2018 yn dilyn Cydsyniad Brenhinol. Disgwyli'r Ddeddf<sup>4</sup> ddechrau gael ei rhoi ar waith o fis Medi 2021. Fodd bynnag, tan i'r newid hwn ddigwydd, bydd y gyfraith bresennol yn parhau mewn grym. Nid yw'r ddogfen hon yn cynnwys unrhyw wybodaeth am y system deddfwriaethol yn y dyfodol.

---

<sup>1</sup> At ddibenion y ddogfen hon, mae sefydliadau addysg bellach arbenigol yn cynnwys Colegau Arbenigol Annibynnol a darparwyr ôl-16 arbenigol eraill.

<sup>2</sup> <https://llyw.cymru/sicrhau-addysg-ol-16-i-bobl-ag-anawsterau-dysgu-canllawiau-i-sefydliadau-addysg-bellach-arbenigol>

<sup>3</sup> Mae'r Cytundeb Ariannu'n sefydlu fframwaith rhwng Llywodraeth Cymru a'r sefydliad addysg bellach arbenigol mewn perthynas â phobl ifanc y mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i'w hariannu.

<sup>4</sup> Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn cynnwys darpariaeth i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am sicrhau darpariaeth arbenigol o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, a darpariaeth ar gyfer hawl i apelio i bobl ifanc mewn addysg ôl-16. Bydd y darpariaethau hyn yn disodli'r prosesau a amlinellir yn y ddogfen hon yn eu cyfanrwydd.

## Cyd-destun statudol

6. Ystyrir bod gan unigolyn anhawster dysgu:
  - (a) os yw'n ei chael yn sylweddol anoddach dysgu na'r rhan fwyaf o unigolion ei oedran, neu
  - (b) os oes ganddo anabledd sydd naill ai'n ei atal neu'n rhwystro iddo rhag defnyddio'r math o gyfleusterau a ddarperir yn gyffredinol gan sefydliadau sy'n darparu addysg neu hyfforddiant ôl-16 (gweler adran 41(5) o Ddeddf 2000).
7. Ni ddylid ystyried bod gan rywun anhawster dysgu dim ond oherwydd bod yr iaith (neu'r math o iaith) y cânt eu haddysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu'r math o iaith) sydd wedi'i siarad ar unrhyw adeg yn eu cartref<sup>5</sup>.
8. Mae swyddogaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â sicrhau'r ddarpariaeth o gyfleusterau ar gyfer addysg a hyfforddiant ac ar gyfer ariannu lleoliadau, yn cynnwys rhai mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol, wedi'u nodi yn Neddf 2000.
9. Yn gryno, mae rheidrwydd ar Lywodraeth Cymru i sicrhau darpariaeth cyfleusterau amrywiol ar gyfer addysg a hyfforddiant pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed ac mae ganddynt bwerau i ariannu sefydliadau addysg bellach a phobl ifanc. Wrth arfer y swyddogaethau hyn, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi sylw dyledus i anghenion unigolion ag anawsterau dysgu ac yn benodol, i unrhyw adroddiad o asesiad y mae Llywodraeth Cymru yn ei drefnu dan adran 140. Mae'n rhaid trefnu'r asesiadau hynny ar gyfer pobl ifanc sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) ac sy'n gadael ysgol i fynd i addysg bellach, a gellir eu trefnu ar gyfer pobl ifanc mewn amgylchiadau eraill hefyd.
10. Os na all Llywodraeth Cymru sicrhau y darperir y cyfleusterau cywir ar gyfer addysg a hyfforddiant i bobl ifanc ag anawsterau dysgu oni bai ei bod hefyd yn sicrhau y darperir llety preswyl, yna mae'n rhaid iddi sicrhau y darperir llety preswyl.

### Crynodeb o'r effaith

11. O'u cymryd gyda'i gilydd, un o effeithiau ymarferol adrannau 31, 32, 41 a 140 o Ddeddf 2000 yw ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ystyried a ddylai gyllido lleoliad person ifanc sydd ag anawsterau dysgu mewn sefydliad addysg bellach arbenigol.

---

<sup>5</sup> Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 41(6).

## Asesiad Adran 140

### Pontio

12. Bydd nodi anghenion addysg a hyfforddiant person ifanc a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu'r anghenion hynny yn helpu person ifanc i bontio'n llwyddiannus i'r sector addysg bellach. Er mwyn nodi'r wybodaeth hon, mae cynghorwyr gyrfaedd yn cynnal asesiadau (sy'n cael eu hadnabod hefyd fel asesiadau adran 140) ar ran Llywodraeth Cymru. Fel arfer, mae hyn yn rhan o'r broses o bontio yn ystod blwyddyn olaf y person ifanc mewn addysg orfodol.
13. Mae mwy o wybodaeth am rôl a chyfrifoldebau cynghorwyr gyrfaedd yn y broses asesu adran 140 ar gael yn y ddogfen *Canllawiau technegol ar gyfer Gyrfa Cymru: sicrhau darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu*<sup>6</sup>.
14. Gall pontio o ysgol i sefydliad dysgu newydd fod yn amser anodd i unrhyw berson ifanc. Mae pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu mewn perygl penodol o beidio â phontio'n llwyddiannus os nad yw cynlluniau priodol ac amser digonol wedi'u rhoi ar waith. Gall hyn effeithio ar eu gallu i barhau i ddysgu a/neu gyflawni'r deilliannau a fwriadwyd.
15. Mae'r broses gynllunio ar gyfer pontio i'w gweld yng Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru<sup>7</sup> ac mae'n cychwyn ym Mlwyddyn 9. Mae Pennod 9 o God Ymarfer AAA Cymru yn nodi'r broses ar gyfer pontio o'r ysgol ac yn disgrifio swyddogaethau'r asiantaethau perthnasol. Mae'n rhaid i'r broses gynllunio ar gyfer pontio a/neu adolygiad blynyddol gael ei chwblhau mewn ffordd ddiudedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Felly, dylai'r cyfarfod hwn neu'r cyfarfodydd hyn ar gyfer y person ifanc ond cynnwys y rhai sydd wedi'u nodi yn y Cod Ymarfer AAA. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i sefydliadau AB arbenigol gymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd adolygu fel arfer, gan y byddai'n anodd gweithredu'n ddiudedd wrth drafod opsiynau priodol sydd ar gael i'r person ifanc.
16. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r holl sefydliadau AB prif ffrwd ac arbenigol fod yn agored i geisiadau gan gynghorwyr gyrfaedd i asesu a ydynt yn gallu diwallu anghenion penodol person ifanc.
17. Mae Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yn arfer da i sefydliadau AB prif ffrwd ac arbenigol ymgysylltu â'i gilydd ynghylch pobl ifanc ag anghenion cymhleth sydd eisiau symud ymlaen i addysg ôl-16, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu'r anghenion addysg a hyfforddiant dynodedig yn cael ei phenderfynu a'i rhoi ar waith yn ymarferol.

### Gofynion yr Asesiad

18. Mae adran 140 yn ei gwneud yn ofynnol i asesiad arwain at Gynllun Dysgu a Sgiliau sy'n nodi'r canlynol:

---

<sup>6</sup> <https://llyw.cymru/sicrhau-addysg-ol-16-i-bobl-ag-anawsterau-dysgu-canllawiau-ar-gyfer-gyrfa-cymru>

<sup>7</sup> Caiff Cod Ymarfer AAA Cymru ei gyhoeddi yn unol ag adran 313 o Ddeddf Addysg 1996. Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar ALlau a Chyrrff Llywodraethu sy'n arfer swyddogaethau o dan Ran IV o'r Ddeddf Addysg ('Anghenion Addysgol Arbennig') i roi sylw i ddarpariaethau'r Cod.

- anghenion addysgol a hyfforddiant y person ifanc; **a'r**
- ddarpariaeth a'r cyfnod rhesymol ac ymarferol sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion, ynghyd ag unrhyw gymorth holistaidd ychwanegol gofynnol, lle bo hynny'n berthnasol;

19. Dylai'r Cynllun Dysgu a Sgiliau nodi'r hyn y gellir ei ddarparu'n realistig mewn gwirionedd, nid yr hyn sy'n ddelfrydol neu'r hyn fyddai'n dda mewn egwyddor. Mae mwy o wybodaeth am yr hyn y dylid ei gynnwys yn y Cynllun Dysgu a Sgiliau ar gael yn y ddogfen ganllawiau *Canllawiau technegol ar gyfer Gyrfa Cymru*.

20. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd sefydliadau AB prif ffrwd yn mynd ati fel mater o drefn i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant y rhan fwyaf o bobl ifanc sydd ag anhawster dysgu. Felly, wrth sefydlu'r ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant y person ifanc, mae'n rhaid i gynghorwyr gyrfaoedd nodi yn y lle cyntaf a yw darpariaeth ar gael drwy'r sector AB prif ffrwd, cyn ystyried opsiynau eraill, megis darpariaeth mewn sefydliadau AB arbenigol.

21. Os yw mynediad at ddarpariaeth arbenigol yn cael ei ystyried, bydd gwybodaeth yn ymwneud â'r asesiad adran 140 yn cael ei rhannu gyda'r sefydliad AB arbenigol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth yn ymwneud ag anghenion holistaidd ehangach y person ifanc, megis anghenion gofal cymdeithasol neu ofal iechyd. Os yw person ifanc wedi derbyn cymorth gofal cymdeithasol neu ofal iechyd, bydd y cynghorydd gyrfaoedd yn rhannu'r asesiad perthnasol (neu o leiaf ddisgrifiad cyffredinol o'r anghenion presennol sy'n cael eu diwallu gan yr asiantaethau perthnasol) gyda'r sefydliad AB arbenigol.

22. Dylai'r sefydliad AB arbenigol ystyried y wybodaeth sydd wedi'i darparu a chynnal ei asesiad cychwynnol ei hun o'r person ifanc er mwyn nodi'r ddarpariaeth y mae'n gallu ei chynnig. Ni ddylai'r asesiad hwn ddigwydd wrth ei hun, dylid ei ystyried gyda thystiolaeth berthnasol arall, er enghraifft cynllun gofal a chymorth; ac unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gan y bwrdd iechyd lleol. Wrth sefydlu'r ddarpariaeth, gall y sefydliad AB arbenigol nodi rhaglen astudio sy'n cynnwys dysgu achrededig, dysgu heb ei achredu neu gymysgedd o ddysgu achrededig a dysgu heb ei achredu. Wrth wneud hynny, bydd angen i'r sefydliad AB arbenigol sicrhau bod unrhyw raglen astudio arfaethedig yn diwallu anghenion addysg a hyfforddiant y bobl ifanc a'u deilliannau dymunol fel y nodwyd yn ei Gynllun Dysgu a Sgiliau.

23. Bydd angen i'r sefydliad AB arbenigol roi copi electronig o asesiad y lleoliad i'r cynghorydd gyrfaoedd perthnasol ynghyd â'r ffurflen '*Manylion Darpariaeth Addysg Bellach Arbenigol*', sydd ar dudalen 18, a fydd yn amlinellu sut y byddai'r lleoliad yn diwallu anghenion addysg a hyfforddiant dynodedig y person ifanc. Dylai'r sefydliad AB arbenigol ddarparu'r adroddiad asesu a'r ffurflen '*Manylion Darpariaeth Addysg Bellach Arbenigol*' i'r cynghorydd perthnasol mewn ffordd amserol.

24. Mae Llywodraeth Cymru'n teimlo y dylid rhoi blaenoriaeth i ddarpariaeth leol, boed hynny'n ddarpariaeth prif ffrwd neu arbenigol, i sicrhau y gall pobl ifanc gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u cymunedau. Os na fydd darpariaeth leol ar gael i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant dynodedig y person ifanc, disgwylir y bydd cynghorwyr gyrfaoedd yn ystyried darpariaeth arall yng Nghymru, lle bo hynny'n rhesymol, cyn ystyried darpariaeth mewn mannau eraill.

## Asesiad a drefnir gan Lywodraeth Cymru

25. O dan amgylchiadau eithriadol, gall Llywodraeth Cymru drefnu'n briodol i seicolegydd addysg gwblhau asesiad adran 140 ar gyfer person ifanc. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd y seicolegydd addysg a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r sefydliad AB arbenigol i gael unrhyw wybodaeth angenrheidiol. Mae mwy o wybodaeth am asesiadau a drefnir gan Lywodraeth Cymru ar gael yn y ddogfen ganllawiau *Canllawiau technegol ar gyfer Gyrfa Cymru* (tudalen 18).
26. Os yw Llywodraeth Cymru yn trefnu asesiad, bydd yn gweithredu ar sail canlyniad yr asesiad yn unig. Os yw'r asesiad yn nodi bod angen darpariaeth mewn sefydliad AB arbenigol, ni fydd disgwyl i'r cynghorydd gyrfaedd gyflwyno cais am gyllid. Yn hytrach, o dan yr amgylchiadau hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad ariannu ar gyfer y ddarpariaeth arbenigol ar sail cyngor yr asesiad. Yn y sefyllfaoedd hyn, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r sefydliad AB arbenigol i gael ffurflen '*Manylion Darpariaeth Addysg Bellach Arbenigol*' ac asesiad sefydliad AB arbenigol, fel y gall gwybodaeth ychwanegol, megis costau lleoliadau, gael eu hystyried. Bydd y wybodaeth ychwanegol hon yn ofynnol cyn y gellir gwneud penderfyniad ariannu.

## Y broses ymgeisio

27. Os yw'r asesiad adran 140 yn nodi bod angen darpariaeth arbenigol gan sefydliad AB arbenigol, mae'n rhaid i'r cynghorydd gyrfaedd gyflwyno cais am gyllid, copi o'r Cynllun Dysgu a Sgiliau a'r ffurflen '*Manylion Darpariaeth Addysg Bellach Arbenigol*', ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol ychwanegol i Lywodraeth Cymru ei hystyried.
28. Bydd y ffurflen gais yn cyflwyno gwybodaeth gryno am y person ifanc ac yn cynnwys gwybodaeth am y sefydliadau AB arbenigol hynny y cysylltwyd â nhw, y darparwr a ffefrir, y rhaglen arfaethedig, hyd y ddarpariaeth (h.y. y dyddiad cychwyn a'r dyddiad gorffen), natur y ddarpariaeth (dydd / preswyl) a sut y bydd y rhaglen arfaethedig yn galluogi'r person ifanc i gyflawni'r deilliannau dymunol. Nodir y wybodaeth hon ar y ffurflen '*Manylion Darpariaeth Addysg Bellach Arbenigol*' y bydd y sefydliad AB arbenigol wedi'i darparu i'r cynghorydd gyrfaedd perthnasol.
29. Mae'n bwysig bod cynghorwyr gyrfaedd a sefydliadau AB arbenigol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol yn ystod y broses asesu adran 140 fel y gall gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw gais dilynol am gyllid gael ei rhannu mewn ffordd amserol. Bydd hyn yn galluogi ceisiadau am gyllid i gael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl, cyn y dyddiadau cau. Dylai sefydliadau AB arbenigol fod yn ymwybodol o'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyni ceisiadau. Felly, rhaid i'r wybodaeth a ddarperir gan y sefydliadau hyn ar gyfer y ceisiadau, gael ei chyflwyno i Gyrfa Cymru ymhell cyn y dyddiadau cau. Gall methu â gwneud hyn effeithio ar allu Gyrfa Cymru i gyflwyno ceisiadau, a bydd hefyd yn effeithio ar yr amser sydd gan Lywodraeth Cymru i ystyried ceisiadau a gwneud penderfyniadau. Mae mwy o wybodaeth am y broses ymgeisio a'r dyddiadau terfyn perthnasol yn y canllawiau polisi.



## Hyd y rhaglen astudio

30. Polisi Llywodraeth Cymru yw sicrhau'r ddarpariaeth a ystyrir yn ofynnol i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant dynodedig y person ifanc. Os oes cais am ddarpariaeth arbenigol yn cael ei wneud, mae'n rhaid ystyried yr hyd gofynnol ar sail gallu'r person ifanc i ddatblygu a chyflawni yn erbyn rhaglen astudio arfaethedig. I'r rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n cael mynediad at ddarpariaeth arbenigol, bydd yr hyd yn gymharol â hyd y ddarpariaeth sydd ar gael mewn sefydliadau AB prif ffrwd. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ceisiadau am raglenni astudio sy'n para mwy na dwy flynedd mewn amgylchiadau eithriadol.
31. Os cynigir rhaglen astudio<sup>8</sup> sy'n para mwy na dwy flynedd academaidd, bydd angen dangos rhesymau eithriadol yn ymwneud â gallu'r unigolyn i ddysgu. Hyd yn oed yn yr achosion hynny, mae'n annhebyg y bydd cyllid yn cael ei gynnig ar gyfer cyfnod o fwy na dwy flynedd heb dystiolaeth wrthrychol sy'n dangos nad yw'r ddarpariaeth a nodwyd yn angenrheidiol i ddiwallu anghenion y person ifanc yn gallu cael ei darparu mewn gwirionedd gan raglen astudio dwy flynedd. Dylai'r wybodaeth hon gael ei darparu gan y sefydliad AB arbenigol ar y ffurflen '*Manylion Darpariaeth Addysg Bellach Arbenigol*'.
32. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y byddai 'tystiolaeth wrthrychol', fel y cyfeiriwyd ati yn y paragraff uchod, yn dystiolaeth o sut y byddai'r rhaglen astudio'n cael ei darparu dros ddwy flynedd. Rydym yn disgwyl hefyd y bydd 'rhesymau eithriadol', yn yr achos hwn, yn ymwneud â pham na allai'r person ifanc hwnnw (y mae'r lleoliad yn ymwneud ag ef) gwblhau'r ddarpariaeth honno o fewn yr amserlen arferol. Fel arfer, ni fydd Llywodraeth Cymru'n derbyn rheswm eithriadol i gyfiawnhau rhaglen astudio sy'n cael ei disgrifio / ei hystyried fel rhaglen tair blynedd 'safonol'.

## Rhaglenni Astudio

33. Mae'n rhaid i sefydliadau AB arbenigol nodi rhaglen astudio glir a rhesymol sy'n diwallu anghenion addysg a hyfforddiant dynodedig y person ifanc, sy'n gysylltiedig â'i ddyheadau i'r dyfodol, fel rhan o'r broses asesu adran 140. Os yn bosibl, dylai'r sefydliad AB arbenigol nodi manylion y ddarpariaeth ddisgwyliedig ym mhob un o'r blynyddoedd academaidd gofynnol a'r deilliannau disgwyliedig. Dylai'r ffurflen '*Manylion Darpariaeth Addysg Bellach Arbenigol*' nodi hyn yn glir. Mae rhagor o wybodaeth am ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â rhaglenni astudio, gan gynnwys mynediad at ddarpariaeth dydd neu breswyl, wedi'i chynnwys yn y canllawiau polisi.
34. Os yw'r sefydliad AB arbenigol yn cynnig **dysgu achrededig** fel rhan o'r rhaglen astudio, dylai'r sefydliad AB arbenigol nodi cyfanswm y credydau sy'n rhan o'r elfen dysgu achrededig. Dylai'r sefydliad AB arbenigol geisio hefyd ddarparu dadansoddiad o'r credydau hynny y flwyddyn, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl. Mae hyn yn rhoi syniad i Lywodraeth Cymru o'r daith ddysgu ddisgwyliedig ar gyfer y person ifanc

---

<sup>8</sup> Caiff sefydliadau AB arbenigol eu sefydlu yn benodol i ddiwallu anghenion cymhleth pobl ifanc a dargedir yn benodol gan y ddarpariaeth, h.y. pobl ifanc ag awtistiaeth ddifrifol neu bobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog. Felly, yn gyffredinol mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i sefydliadau AB arbenigol gynllunio rhaglenni astudio pwrpasol sy'n gymharol o ran hyd â rhaglenni astudio sefydliad AB prif ffrwd. Dylai'r rhaglenni hyn gael eu targedu'n benodol at y lefel ymarferol o addysg y mae modd ei chyflawni yn y cyfnod hwnnw ar gyfer y cohort cyffredinol o bobl ifanc sy'n mynychu'r sefydliadau hyn.

hwnnw, ond mae Llywodraeth Cymru'n deall na fydd hyn o reidrwydd yn golygu disgwyliad absoliwt o gynnydd.

35. Os yw'r sefydliad AB arbenigol yn cynnig **dysgu heb ei achredu** fel rhan o'r rhaglen astudio, dylai'r sefydliad AB arbenigol geisio hefyd ddarparu dadansoddiad o'r ddarpariaeth heb ei hachredu y flwyddyn, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gall y ddarpariaeth heb ei hachredu hon gael ei llywio gan gynnydd y person ifanc a/neu fod yn seiliedig ar ei feysydd o ddiddordeb ar y pryd. Felly, bydd Llywodraeth Cymru'n derbyn rhestr o nodau heb eu hachredu y mae'r person ifanc yn ceisio eu cyflawni ar draws y rhaglen astudio, gyda syniad o'r nodau (neu nifer y nodau) y byddai disgwyl i'r person ifanc weithio tuag atynt/eu cyflawni yn y flwyddyn academaidd honno e.e. pump o'r deg o nodau heb eu hachredu a restrwyd. Dylai'r holl ddarpariaeth heb ei hachredu fod yn gysylltiedig ag unrhyw amcanion dysgu ar gyfer yr unigolyn a'r strategaeth sy'n ofynnol i gyflawni'r amcanion hynny.
36. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod efallai y bydd y cynnydd yn nysgu rhai pobl ifanc ag anghenion cymhleth yn llorweddol yn hytrach nag yn fertigol. Felly, efallai y bydd angen i rai pobl ifanc gaffael a datblygu sgiliau dros gyfnod o amser ar lefel debyg i'w dysgu blaenorol. Os felly, dylai'r sefydliad AB arbenigol (wrth sefydlu rhaglen astudio) ddarparu sail resymegol i Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru dros lefel y dysgu a gynigir. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru'n deall efallai na fydd hi'n bosibl yn ystod y cyfnod asesu adran 140 i nodi'r lefel briodol o ddysgu y bydd angen i'r rhaglen astudio ei thargedu. O dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r sefydliad AB arbenigol gadarnhau lefel y dysgu yn syth ar ôl yr asesiad 6 wythnos o'r person ifanc, ar ôl iddo gychwyn yn y ddarpariaeth honno.
37. Mae'r dadansoddiad lefel uchel hwn o wybodaeth ar gyfer rhaglen astudio arfaethedig y person ifanc yn angenrheidiol fel y gall Llywodraeth Cymru fonitro ac asesu cynnydd yn erbyn unrhyw raglenni astudio dilynol a ddarperir. Felly, cyfeirir at y rhaglen astudio arfaethedig fel y 'rhaglen astudio a gytunwyd' fel yr amlinellwyd yn llythyr cadarnhau Llywodraeth Cymru a'r ffurflen awdurdodi cyllid myfyrwyr (SFAF).

## Cyllid / Ffioedd

38. Nid yw Llywodraeth Cymru yn mynd ati ar ei phen ei hun i gynorthwyo pobl ifanc ag anawsterau dysgu. Mewn amgylchiadau lle mae rhesymau meddygol, domestig neu ofal cymdeithasol dros argymell darpariaeth addysg bellach arbenigol, yn ogystal ag anghenion addysgol, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r asiantaeth briodol ddod i drefniant ar gyfer cyllid ar y cyd.
39. Dylai sefydliadau AB arbenigol sicrhau eu bod wedi nodi'r costau, gan gynnwys unrhyw gostau asesu cyn derbyn, sy'n gysylltiedig â lleoliad arfaethedig yn ystod y broses asesiad adran 140. Mae hyn yn sicrhau tryloywder ar gyfer pob parti o ran y cymorth/costau sydd ei angen er mwyn i'r person ifanc allu manteisio ar y lleoliad arfaethedig. Bydd angen i'r sefydliad AB arbenigol ddarparu manylion y costau penodol sy'n gysylltiedig ag addysg, iechyd a/neu ofal cymdeithasol. Mae angen dangos hyn yn glir yn y ffurflen '*Manylion Darpariaeth Addysg Bellach Arbenigol*'. Os bydd angen i'r costau newid, y sefydliad AB arbenigol sy'n gyfrifol am gyflwyno ffurflen ddiwygiedig i'r cynghorydd gyrfaoedd perthnasol.

40. Mae canllawiau polisi Llywodraeth Cymru yn darparu cyngor pellach ar drefniadau ariannu (paragraffau 60-63).

### **Cynllunio ar gyfer Pontio**

41. Mae'n bwysig bod trefniadau pontio ar waith er mwyn i'r broses o gychwyn y ddarpariaeth newydd fod yn un esmwyth i'r person ifanc er mwyn lleihau'r risg o straen a/neu bryder i'r unigolyn. Bydd angen i'r sefydliad AB arbenigol nodi'r trefniadau arfaethedig i alluogi pontio effeithiol i'r lleoliad ac amlinellu'r trefniadau hyn yn glir ar y ffurflen '*Manylion Darpariaeth Addysg Bellach Arbenigol*'. Dylai'r wybodaeth hon gael ei theilwra'n benodol i'r person ifanc, ac nid yw'n ddatganiad cyffredinol ynghylch trefniadau cynllunio ar gyfer pontio'r lleoliad.

42. Mae'r un mor bwysig bod y trefniadau ar gyfer pontio o sefydliad AB arbenigol yn cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith yn effeithiol, mewn cydweithrediad ag asiantaethau cymorth perthnasol. Bydd angen i'r sefydliad AB arbenigol ddangos y trefniadau arfaethedig ar gyfer gadael y lleoliad ar ôl cwblhau'r rhaglen astudio arfaethedig ac amlinellu'r rhain ar y ffurflen '*Manylion Darpariaeth Addysg Bellach Arbenigol*'. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod ei threfniadau ar gyfer y cyfnod ar ôl y lleoliad yn amodol ar benderfyniadau a wneir gan asiantaethau cymorth perthnasol eraill a all effeithio ar gyrchfan 'gwirioneddol' y person ifanc ar ôl i'w raglen astudio ddod i ben. Felly, bydd Llywodraeth Cymru'n derbyn datganiad cyffredinol o drefniadau posibl ar gyfer pontio o'r lleoliad ond, os yn bosibl, dylai gwybodaeth am gynllunio ar gyfer pontio gael ei theilwra i'r person ifanc.

43. Mae canllawiau polisi Llywodraeth Cymru yn amlinellu disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer trefniadau pontio effeithiol (paragraffau 74 a 75).

### **Penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau am gyllid**

44. Ar ôl ystyriaeth gychwynnol o gais am gyllid, bydd Llywodraeth Cymru'n cysylltu â'r cynghorydd gyrfaoedd perthnasol i nodi a oes unrhyw bryderon a/neu ymholiadau pellach ynglŷn â'r cais. Os yw'r ymholiad yn ymwneud â'r wybodaeth a ddarparwyd gan y sefydliad AB arbenigol, bydd Llywodraeth Cymru'n hysbysu'r cyswllt perthnasol yn y lleoliad fel y gall unrhyw ymholiadau gael eu datrys mewn ffordd amserol. Bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio gwneud unrhyw ymholiadau o'r fath, lle bo hynny'n berthnasol, o fewn pythefnos i dderbyn y cais.

45. Bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud pob ymdrech i ddod i benderfyniad ar gais o fewn 6 wythnos, yn amodol ar dderbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol.

46. Pan gymeradwyir cais i ariannu lleoliad mewn sefydliad AB arbenigol, bydd Llywodraeth Cymru'n ysgrifennu at y person ifanc, y rhiant/gofalwr (lle bo'n briodol), y cynghorydd gyrfaoedd, y sefydliad AB arbenigol ac asiantaethau perthnasol eraill i gadarnhau'r penderfyniad a beth sydd wedi'i gymeradwyo'n benodol h.y. y rhaglen astudio a gytunwyd a'r hyd penodol.

47. Bydd Ffurflen Awdurdodi Cyllid Myfyrwyr (SFAF) yn cael ei chyflwyno i'r coleg, ynghyd â chopi o'r llythyr cadarnhad, a fydd yn amlinellu manylion cytunedig y cyllid; y rhaglen astudio; a'r hyd. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y bydd y sefydliad AB arbenigol yn

gwirio'r wybodaeth hon pan fydd yn ei derbyn ac yn codi unrhyw bryderon, os bydd angen, ar y pryd.

48. Ar ôl y cadarnhad hwn, bydd angen i'r cynghorydd gyrfaoedd perthnasol ddarparu copi o Gynllun Dysgu a Sgiliau terfynol y person ifanc i'r sefydliad AB arbenigol fel y gall roi'r trefniadau cymorth angenrheidiol ar waith cyn gynted â phosibl.
49. Pan na chymeradwyir cais i ariannu lleoliad mewn sefydliad AB arbenigol, bydd Llywodraeth Cymru'n ysgrifennu at y person ifanc, y rhiant/gofalwr, y cynghorydd gyrfaoedd, y sefydliad AB arbenigol ac asiantaethau perthnasol eraill i gadarnhau'r penderfyniad a darparu rhesymau.

# Gofynion adrodd ar gyfer rhaglenni astudio y cytunwyd arnynt

## Adrodd ar gynnydd person ifanc ar raglen astudio y cytunwyd arni

50. Mae sefydliadau AB arbenigol yn gyfrifol am asesu cynnydd person ifanc yn erbyn ei raglen astudio y cytunwyd arni a'i ddeilliannau dymunol. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i unrhyw bryderon neu broblemau ynglŷn â gallu'r person ifanc i gwblhau'r rhaglen astudio y cytunwyd arni gael eu codi mewn adolygiadau tymhorol yn y lleoliad a'u cofnodi yn eu hadroddiadau cynnydd. Dylai'r sefydliad AB arbenigol wahodd y cynghorydd gyrfaedd perthnasol i'r adolygiadau tymhorol, ynghyd â'r rhieni a gweithwyr ieuchyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, os yn berthnasol. Nid yw Llywodraeth Cymru'n mynd i adolygiadau tymhorol, ac ni ddylid ei gwahodd. Dylai copïau o gofnodion yr adolygiadau tymhorol ar gyfer y person ifanc hwnnw gael eu darparu i'r cynghorydd gyrfaedd.
51. Mae'n ofynnol i'r sefydliad AB arbenigol ddarparu adborth rheolaidd i Lywodraeth Cymru ar gynnydd person ifanc yn erbyn ei raglen astudio y cytunwyd arni. Bydd angen i'r sefydliad AB arbenigol gyflwyno adroddiadau cynnydd ar ddiwedd y tymor academaidd cyntaf ac ar ddiwedd y flwyddyn academaidd i Lywodraeth Cymru ar gyfer pob blwyddyn y mae'r person ifanc yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Dylai'r sefydliad AB arbenigol ddarparu'r adroddiad cynnydd hwn gan ddefnyddio'r ffurflen '*Adroddiad Cynnydd*' (gweler yr adran 'Ffurflen adroddiad cynnydd' ar dudalen 22).
52. Rhaid i'r adroddiad cynnydd sôn yn benodol am raglen astudio'r person ifanc y mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i'w hariannu, a bydd angen iddo gyfateb i'r hyn a amlinellwyd yn y llythyr cadarnhad a'r SFAF.
53. Rhaid i'r adroddiad cynnydd nodi'r hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma a'r hyn nad yw wedi'i gyflawni, ynghyd ag unrhyw ddyddiadau cwblhau disgwylid. Dylai hyn fod yn unol â'r dadansoddiad a ddarparwyd gan y sefydliad AB arbenigol ar gyfer y rhaglen astudio wreiddiol.
- Os yw'r person ifanc yn cyflawni dysgu achrededig fel rhan o'i raglen astudio y cytunwyd arni, dylai'r sefydliad AB arbenigol nodi faint o gredydau sydd wedi'u cyflawni neu wedi'u cyflawni'n rhannol a faint o gredydau sy'n weddill.
  - Os yw'r person ifanc yn cyflawni dysgu heb ei achredu fel rhan o'i raglen astudio y cytunwyd arni, dylai'r sefydliad AB arbenigol nodi'r nodau heb eu hachredu (neu nifer y nodau) sydd wedi'u cyflawni neu wedi'u cyflawni'n rhannol a'r nodau heb eu hachredu (neu nifer y nodau) nad ydynt wedi'u cychwyn eto. Os nad yw nifer y nodau wedi'u nodi fel rhan o'r rhaglen astudio a gytunwyd, rhaid i'r coleg ddarparu'r ganran o'r elfen honno o'r rhaglen sydd wedi'i chwblhau neu ei chwblhau'n rhannol neu sydd heb gychwyn eto.
54. Bydd angen i'r sefydliad AB arbenigol nodi ar yr adroddiad cynnydd a yw'r person ifanc ar y trywydd iawn i gwblhau'r rhaglen astudio y cytunwyd arni erbyn dyddiad cwblhau'r rhaglen honno ac, os nad yw ar y trywydd iawn, dylid darparu manylion yn ymwneud â'r person ifanc. Dylai'r sefydliad AB arbenigol nodi hefyd yn yr adroddiad cynnydd unrhyw gynnydd a wnaed ar drefniadau pontio sy'n gysylltiedig â chyrchfan arfaethedig y person ifanc. Dylai unrhyw wybodaeth yn yr adroddiad cynnydd sy'n gysylltiedig â threfniadau

pontio fod wedi'i theilwra'n benodol ar gyfer yr unigolyn dan sylw, yn hytrach na bod yn ddatganiad cyffredinol am drefniadau'r lleoliad ar gyfer cynllunio ar gyfer pontio.

55. Gall y sefydliad AB arbenigol gyflwyno'r ffurflen 'Adroddiad Cynnydd' yn electronig i Lywodraeth Cymru cyn gynted ag yr ystyrir y byddai'n briodol gwneud hynny, ond bydd angen i'r 'ffurflen Adroddiad Cynnydd' gael ei chyflwyno o fewn mis i ddiwedd y tymor academaidd cyntaf ac o fewn mis i gwblhau'r flwyddyn academaidd. Nid oes angen cyflwyno unrhyw wybodaeth ategol ychwanegol gyda'r ffurflen 'Adroddiad Cynnydd'.
56. Pan fydd Llywodraeth Cymru'n cytuno ar raglen astudio ar gyfer person ifanc, bydd yn ymrwymo i ariannu'r rhaglen astudio honno am y cyfnod y cytunwyd arno (cyn belled bod y person ifanc yn aros ar y rhaglen). Ar ôl i flwyddyn academaidd rhaglen astudio y cytunwyd arni ddod i ben, nid oes yna broses ymgeisio ar wahân ar gyfer gwneud cais am gyllid ar gyfer y blynyddoedd dilynol 'y cytunwyd arnynt'. Cyn belled â bod y sefydliad AB arbenigol yn cyflwyno 'Adroddiad Cynnydd' boddhaol<sup>9</sup> ar ddiwedd blwyddyn academaidd y person ifanc, bydd Llywodraeth Cymru'n cadarnhau cyllid ar gyfer y flwyddyn ddilynol (o'r cyfnod y cytunwyd arno) gyda'r lleoliad. Bydd problemau gydag ansawdd adroddiad cynnydd yn arwain at oedi o ran cadarnhau cyllid i'r dyfodol, er enghraifft, os yw'r sefydliad AB arbenigol wedi adrodd cynnydd mewn perthynas â rhaglen astudio nad yw Llywodraeth Cymru wedi cytuno arni. Gallai oedi o ran cadarnhau'r cyllid i'r dyfodol mewn pryd ar gyfer y taliad tymhorol nesaf olygu bod Llywodraeth Cymru'n dal yn ôl y taliad ar gyfer y bobl ifanc hynny.

### **Gwneud cais i newid rhaglen astudio y cytunwyd arni**

57. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gytuno i unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth o fewn rhaglen astudio y cytunwyd arni cyn i'r ddarpariaeth arfaethedig honno gychwyn. Mae mwy o wybodaeth am ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran newidiadau i raglen astudio y cytunwyd arni yn y canllawiau polisi (paragraffau 76-81).
58. Os gwneir cais i newid darpariaeth y cytunwyd arni, bydd angen i'r sefydliad AB arbenigol gysylltu â Llywodraeth Cymru i drafod y newid hwnnw. Ar ôl y drafodaeth ac os ystyrir y byddai'n briodol gwneud hynny, bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ffurflen 'Gwneud Cais am Newid' y bydd angen i'r sefydliad AB arbenigol ei llenwi a'i dychwelyd i Lywodraeth Cymru (gweler yr adran 'Ffurflen Gwneud Cais am Newid' ar dudalen 24).
59. Dylai'r sefydliad AB arbenigol ond ceisio gwneud cais i newid rhaglen astudio y cytunwyd arni:
- os oes gan y newid oblygiadau i gyllid Llywodraeth Cymru;
  - os bydd y newid yn effeithio ar gyfanswm y credydau / nodau heb eu hachredu y bwriedir eu cyflawni;
  - os bydd y newid yn effeithio ar y rhaglen gyffredinol.
60. Ni ddylai'r sefydliad AB arbenigol geisio gwneud cais i newid rhaglen astudio y cytunwyd arni os yw'r newidiadau mewn perthynas â'r canlynol:

---

<sup>9</sup> Mae'r term 'boddhaol' yn sôn am ansawdd yr adroddiad cynnydd a gyflwynwyd gan y sefydliad AB arbenigol, yn hytrach na lefel y cynnydd a wnaed gan y person ifanc h.y. mae'n unol â'r canllawiau a amlinellir yn yr adran 'Adrodd cynnydd ar gyfer person ifanc ar raglan astudio y cytunwyd arni'.

- enw cwrs/rhaglen achrededig / heb ei hachredu (lle mae'r bwrdd cymwysterau wedi newid yr enw) ac ati. Yn y sefyllfaoedd hyn, dylai'r sefydliad AB arbenigol roi gwybod i Lywodraeth Cymru am y newidiadau gweinyddol hyn drwy e-bost cyn gynted ag y maent yn hysbys;
  - darpariaeth ategol a fyddai'n cael ei hariannu'n benodol trwy asiantaethau cymorth perthnasol (nid Llywodraeth Cymru) h.y. gwasanaethau cymdeithasol neu'r Bwrdd Iechyd Lleol. Yn y sefyllfaoedd hyn, dylai'r sefydliad AB arbenigol geisio cael y cytundeb angenrheidiol a'r cyfraniad ariannol trwy'r asiantaeth ariannu berthnasol. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, byddai angen rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am y newid hwn i ddarpariaeth ategol y mae'r asiantaeth ariannu berthnasol wedi cytuno iddo.
61. Bydd angen i'r sefydliad AB arbenigol amlinellu'n benodol ar y ffurflen '*Gwneud Cais am Newid*' beth yw'r newid arfaethedig, unrhyw gostau cysylltiedig a'r rhesymau dros y newid arfaethedig.
62. Bydd angen i'r sefydliad AB arbenigol nodi'n benodol ar y ffurflen '*Gwneud Cais am Newid*' ba elfen sy'n cael ei 'hychwanegu' a/neu ei 'dileu', ynghyd â'r rhesymau dros y newid. Dylai'r rhesymau fod yn ymwneud â'r anghenion addysg a hyfforddiant dynodedig, fel y nodir yng Nghynllun Dysgu a Sgiliau y person ifanc. Os yw'r newid arfaethedig yn ymwneud â lefel y cymorth, rhaid i'r sefydliad AB arbenigol gadarnhau pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda'r gwasanaethau cymdeithasol/byrddau iechyd ynghylch y gofynion cymorth arfaethedig a'r costau cysylltiedig. Dylai'r sefydliad AB arbenigol ystyried hefyd a oes angen gwneud trefniadau ar gyfer pontio'r person ifanc i'r ddarpariaeth newydd arfaethedig. Os oes angen trefniadau pontio, dylid nodi'r rhain ar y ffurflen '*Gwneud Cais am Newid*'.
63. Os nad oes gan y person ifanc y gallu meddyliol i gydsynio i newidiadau i'w raglen astudio y cytunwyd arni ac os oedd yn destun 'penderfyniad budd pennaf' (a arweiniodd at y lleoliad y cytunwyd arno), dylai'r sefydliad AB arbenigol ystyried, mewn cydweithrediad â phartion â buddiant, a oes angen gwneud 'penderfyniad budd pennaf'.
64. Os bydd newidiadau i ddarpariaeth person ifanc yn effeithio'n sylweddol ar y rhaglen astudio y cytunwyd arni e.e. newid rhaglen neu gwrs astudio, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r newidiadau hyn gael eu nodi cyn gynted â phosibl yn ystod y flwyddyn academaidd. Felly, bydd angen i bob cais i wneud newid 'sylweddol' i ddarpariaeth y cytunwyd arni gael ei gyflwyno yn ystod tymor astudio cyntaf y person ifanc mewn unrhyw flwyddyn academaidd. Fel arfer, ni fydd Llywodraeth Cymru'n derbyn unrhyw geisiadau i newid darpariaeth yn sylweddol a dderbynnir ar ôl y cyfnod hwn mewn unrhyw flwyddyn academaidd. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried mân newidiadau i gefnogi darpariaeth os ystyrir bod y newidiadau hynny'n angenrheidiol gydol y flwyddyn academaidd.
65. Bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud ei gorau glas i ddod i benderfyniad o fewn pedair wythnos i dderbyn cais i newid rhaglen astudio y cytunwyd arni. Bydd Llywodraeth Cymru'n anfon cadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad hwnnw at y person ifanc, y rhiant/gofalwr (lle bo hynny'n briodol), y cynghorydd gyrfaoedd, y sefydliad AB arbenigol ac asiantaethau perthnasol eraill.

66. Yn unol â'r canllawiau polisi, byddwn ond yn disgwyl gweld cynnydd yn y gost lle mae'n rhaid i berson ifanc gael cymorth ychwanegol. Felly, ni fyddwn yn disgwyl i ffioedd gynyddu'n gyffredinol ar gyfer pobl ifanc y mae eu rhaglenni astudio eisoes wedi'u cytuno gan Lywodraeth Cymru.

### **Adrodd digwyddiad yn ymwneud â pherson ifanc ar raglen astudio y cytunwyd arni**

67. Os bydd rhywbeth yn digwydd mewn perthynas â pherson ifanc sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ar raglen astudio y cytunwyd arni, rhaid hysbysu Llywodraeth Cymru yn syth neu cyn gynted â phosibl yn unol â'r amodau a nodwyd yn y 'Cytundeb Ariannu'. Rhaid i'r sefydliad AB arbenigol lenwi a chyflwyno'r ffurflen '*Hysbysu am Ddigwyddiad*' (gweler yr adran 'Ffurflen hysbysu am ddigwyddiad' ar dudalen 27).

68. Oherwydd oedran y bobl ifanc hyn a natur eu hanawsterau dysgu, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gall pob math o bethau ddigwydd unrhyw bryd yn ystod eu rhaglen astudio y cytunwyd arni. Felly, at ddibenion gofynion adrodd Llywodraeth Cymru ar ddigwyddiadau o'r fath, dim ond os oes gan y digwyddiad y potensial i effeithio ar gynnydd a/neu bresenoldeb y person ifanc ar y rhaglen astudio y cytunwyd arni, megis salwch neu faterion diogelu, y mae angen hysbysu Llywodraeth Cymru.

69. Rhaid i'r sefydliad AB arbenigol hysbysu Llywodraeth Cymru os yw'r digwyddiad wedi arwain at gyfranogiad trydydd parti. Dylid amlinellu hyn ar y ffurflen '*Hysbysu am Ddigwyddiad*'.

### **Absenoldeb neu dynnu'n ôl o raglen astudio y cytunwyd arni**

70. Os bydd person ifanc yn absennol neu'n tynnu'n ôl o raglen astudio y cytunwyd arni, rhaid hysbysu Llywodraeth Cymru yn syth neu cyn gynted â phosibl yn unol â'r amodau a amlinellir yn y 'Cytundeb Ariannu' ('rhoi'r gorau i ddysgu'). Rhaid i'r sefydliad AB arbenigol lenwi a chyflwyno'r ffurflen '*Absenoldeb neu Dynnu'n Ôl*' (gweler yr adran 'Ffurflen absenoldeb neu dynnu'n ôl' ar dudalen 28).

71. Bydd hi'n ofynnol i'r sefydliad AB arbenigol gyflwyno unrhyw ddyddiadau a gwybodaeth berthnasol am yr absenoldeb neu'r tynnu'n ôl, ynghyd ag unrhyw gamau a gymerwyd gan y sefydliad AB arbenigol i leihau effaith yr absenoldeb neu i atal y person ifanc rhag tynnu'n ôl o'r rhaglen.

72. Os yw'r absenoldeb neu'r tynnu'n ôl yn arwain at 'roi'r gorau i ddysgu', gall Llywodraeth Cymru adolygu lefel y taliad ar gyfer y sefydliad AB arbenigol mewn perthynas â'r lleoliad hwnnw. Mae'r amgylchiadau sy'n arwain at 'roi'r gorau i ddysgu' wedi'u hamlinellu yng Nghytundeb Ariannu'r lleoliad.

### **Ceisiadau i ariannu estyniad i raglen astudio y cytunwyd arni**

73. Mae sefydliadau AB arbenigol yn gyfrifol am asesu cynnydd person ifanc yn erbyn ei raglen astudio ac ystyried gyda'r person ifanc, ei riant/gofalwr a'i gynghorydd gyrfaoedd berthnasol a oes angen gwneud cais am estyniad i'r rhaglen y cytunwyd arni. Mae'r sefydliad AB arbenigol yn gyfrifol am gyflwyno cais am estyniad i Lywodraeth Cymru. Yn y cyd-destun hwn, mae 'estyniad' yn golygu estyniad i gwblhau'r rhaglen astudio



wreiddiol y cytunodd Llywodraeth Cymru i'w hariannu (y cyfeirir ati fel y 'rhaglen astudio a gytunwyd').

74. Os yw cais am estyniad i raglen astudio y cytunwyd arni yn cael ei wneud, bydd angen i'r sefydliad AB arbenigol lenwi a chyflwyno'r ffurflen '*Cais am Estyniad*' (gweler yr adran 'Ffurflen cais am estyniad' ar dudalen 29).
75. Bydd ceisiadau i estyn lleoliad person ifanc y tu hwnt i ddyddiad gorffen gwreiddiol y rhaglen ond yn cael eu cymeradwyo mewn achosion **eithriadol**. Nid yw cais i ymestyn lleoliad person ifanc er mwyn i'r unigolyn allu ymgymryd â darpariaeth ychwanegol neu raglenni achrededig sydd y tu hwnt i'r hyn a gytunwyd yn wreiddiol, yn gais am estyniad, ac mae ystyriaethau gwahanol yn yr achos hwn.
76. Wrth wneud cais am estyniad, bydd angen i'r sefydliad AB arbenigol amlinellu'r elfennau sy'n weddill o'r rhaglen astudio wreiddiol y cytunwyd arni (y mae'r estyniad yn berthnasol iddi), yr amser sydd ei angen i gwblhau'r rhaglen y cytunwyd arni a chadarnhad a fydd gofynion cymorth y person ifanc yn aros yr un fath (â'r hyn y mae'n ei dderbyn ar hyn o bryd). Rhaid i'r cais am estyniad ond ymwneud ag ymestyn y cyfnod amser sydd ei angen ar berson ifanc i gwblhau'r rhaglen astudio wreiddiol a gytunwyd. Yn ogystal, dylai'r sefydliad AB arbenigol nodi'r rhesymau pam yr ystyrir bod angen estyniad i raglen astudio y cytunwyd arni, gan amlinellu unrhyw gamau a gymerwyd gan y lleoliad i leihau'r angen am estyniad. Bydd angen i'r rhesymau dros estyniad fod yn ymwneud â diwallu'r anghenion addysg a hyfforddiant dynodedig, fel y nodir yng Nghynllun Dysgu a Sgiliau y person ifanc. Dylai gwybodaeth am unrhyw opsiynau amgen a ystyriwyd mewn trafodaeth â'r cynghorydd gyrfaoedd perthnasol gael ei nodi hefyd, ynghyd â'r rhesymau pam y cawsant eu gwrthod.
77. Rhaid i gyfnod yr estyniad sydd ei angen fod yn gymesur â'r hyn sydd ar ôl i'w gwblhau yn rhaglen astudio'r person ifanc. Dylai'r sefydliad AB arbenigol ystyried faint o amser sy'n rhesymol ac yn ymarferol i'r person ifanc gwblhau'r rhaglen astudio wreiddiol.
78. Os yw'r ddarpariaeth yn cael ei hariannu ar y cyd, bydd angen i'r sefydliad AB arbenigol gadarnhau pa drafodaethau a gafwyd gyda gwasanaethau cymdeithasol/byrddau iechyd yn ymwneud â'r cais am estyniad a'r costau cysylltiedig. Dylai hyn gael ei gynnwys ar y ffurflen '*Cais am Estyniad*'.
79. Os yw cais am estyniad yn cael ei wneud, bydd Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r adroddiadau cynnydd a gyflwynwyd gan y sefydliad AB arbenigol ar gyfer y person ifanc hwnnw gefnogi hefyd y rhesymau dros wneud cais am yr estyniad hwnnw. Mae'n bwysig bod yna ddiwylliant 'dim syndod', a bydd y wybodaeth a ddarperir gan sefydliadau AB arbenigol ar y ffurflen '*Adroddiad Cynnydd*' yn helpu i hwyluso hyn.
80. Bydd angen i bob cais am estyniad gael ei gyflwyno erbyn **30 Ebrill** ym mlwyddyn astudio olaf y person ifanc, neu ar ddiwedd ei dymor academiaidd olaf ond un os dechreuodd y person ifanc ei ddarpariaeth y tu allan i'r flwyddyn academiaidd safonol.
81. Bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio dod i benderfyniad o fewn pedair wythnos i dderbyn cais i ariannu estyniad i raglen astudio y cytunwyd arni. Bydd Llywodraeth Cymru'n anfon cadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad hwnnw at y person ifanc, y rhiant/gofalwr

(lle bo hynny'n briodol), y cynghorydd gyrfaoedd, y sefydliad AB arbenigol ac asiantaethau perthnasol eraill.

82. Ceir rhagor o gyngor yn y canllawiau polisi (paragraffau 82-91) ar y broses ar gyfer gwneud cais i ariannu estyniadau i raglen astudio a gytunwyd.

### **Adrodd ar gyrchfan person ifanc ar ôl iddo gwblhau rhaglen astudio y cytunwyd arni**

83. Pan fo person ifanc sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yn cwblhau rhaglen astudio y cytunwyd arni, neu'n tynnu'n ôl o'r rhaglen honno, rhaid i wybodaeth am gyrchfan y person ifanc gael ei darparu i Lywodraeth Cymru. Bydd angen i'r sefydliad AB arbenigol lenwi a chyflwyno'r ffurflen 'Cyrchfan' (gweler yr adran 'Ffurflen cyrchfan' ar dudalen 31).

84. Dylai'r sefydliad AB arbenigol nodi'n benodol beth a gyflawnodd y person ifanc h.y. unrhyw ddarpariaeth achrededig / heb ei hachredu, a sut mae'r rhaglen y cytunwyd arni wedi galluogi'r person ifanc i gyflawni ei ddeilliannau dymunol (fel y nodir yn ei Gynllun Dysgu a Sgiliau). Dylai'r sefydliad AB arbenigol nodi sut roedd ei drefniadau pontio'n helpu'r person ifanc i gyflawni ei nodau o ran cyrchfan.

85. Os yw person ifanc yn tynnu'n ôl o raglen astudio y cytunwyd arni, dylai'r sefydliad AB arbenigol esbonio i ba raddau mae'r addysg a dderbyniwyd a'r cynlluniau ar gyfer pontio a drefnwyd wedi galluogi'r person ifanc i gyflawni ei ddeilliannau dymunol.

86. Dylai'r holl wybodaeth am gyrchfan gael ei chyflwyno erbyn yr hanner tymor ar ôl i'r person ifanc gwblhau'r rhaglen astudio y cytunwyd arni, neu dynnu'n ôl o'r rhaglen honno.

### **Ceisiadau i ariannu rhaglenni astudio ychwanegol**

87. O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd angen i berson ifanc gwblhau darpariaeth arbenigol ychwanegol y tu hwnt i raglen astudio wreiddiol y person ifanc ac ar ôl iddo gwblhau'r rhaglen honno. O dan yr amgylchiadau hyn, rôl y cynghorydd gyrfaoedd, mewn cydweithrediad â'r person ifanc a'r rhiant/gofalwr, yw ystyried y rhesymau dros raglen astudio ychwanegol.

88. Bydd Llywodraeth Cymru ond yn ariannu rhaglen astudio ychwanegol mewn sefydliad AB arbenigol mewn amgylchiadau **eithriadol**.

89. Cyn gellir gwneud cais am raglen astudio ychwanegol, bydd y cynghorydd gyrfaoedd yn gyfrifol am gyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am ganiatâd i ddiweddarau asesiad adran 140 y person ifanc. Rhaid i'r cais hwn nodi sut mae amgylchiadau'r person ifanc wedi newid i'r graddau bod angen diweddarau ei asesiad adran 140. Yn amodol ar y caniatâd hwn, ni ellir gwarantu y bydd Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ar gyfer rhaglen astudio ychwanegol.

90. Gyrfa Cymru sy'n gyfrifol am gyflwyno cais am gyllid ar gyfer rhaglen astudio ychwanegol os pennir bod darpariaeth o'r fath yn angenrheidiol yn dilyn caniatâd Llywodraeth Cymru i ddiweddarau asesiad adran 140 y person ifanc. Bydd pob cais am gyllid ar gyfer rhaglen astudio ychwanegol yn dilyn yr un amserlenni ag ar gyfer

ceisiadau am raglenni astudio newydd h.y. rhaid i'r cais gael ei gyflwyno erbyn **30 Ebrill** ar gyfer rhaglen a fydd yn cychwyn ym mis Medi. Dylai'r sefydliad AB arbenigol geisio gweithio gyda Gyrfa Cymru a darparu unrhyw wybodaeth angenrheidiol am raglen astudio ychwanegol arfaethedig mewn ffordd amserol fel bod modd cyflwyno cais o fewn yr amserlenni gofynnol.

91. Dylai'r trefniadau pontio o fewn coleg a chyda'r asiantaethau allanol perthnasol barhau nes bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad ynghylch rhaglen astudio ychwanegol.

92. Mae cyngor pellach ar raglenni astudio ychwanegol ac amserlenni cysylltiedig yng nghanllawiau polisi Llywodraeth Cymru (paragraffau 92-97).

### **Cyflwyno gwybodaeth i Lywodraeth Cymru**

93. Os oes angen i'r sefydliad AB arbenigol gyflwyno unrhyw ffurflen wedi'i llenwi i Lywodraeth Cymru, dylai wneud hynny'n electronig, trwy Egress Switch, i'n blwch negeseuon e-bost: [Post16ALN@llyw.cymru](mailto:Post16ALN@llyw.cymru)

94. Mae Llywodraeth Cymru ar gael i fynd i'r afael ag unrhyw faterion penodol. Os bydd y sefydliad AB arbenigol am gysylltu â Llywodraeth Cymru, dylai wneud hynny trwy'r blwch negeseuon e-bost.



## Ffurflen manylion darpariaeth addysg bellach arbenigol

**Llenwch a dychwelwch y ffurflen hon yn electronig i gynghorydd gyrfaoedd y person ifanc gydag unrhyw asesiad sefydliad addysg bellach arbenigol a gwblhawyd. Bydd y wybodaeth a ddarparwyd yn helpu i lywio barn y cynghorydd gyrfaoedd ar ddarpariaeth arbenigol, yn ystod ei broses asesu adran 140.**

Enw'r person ifanc	<i>Enw Llawn</i>
Enw'r sefydliad AB arbenigol	<i>Enw Llawn</i>

### Darpariaeth Arfaethedig

Enw'r ddarpariaeth arfaethedig <i>(dileer fel sy'n briodol)</i>	PRESWYL DYDD
--	--------------

Cadarnhewch fanylion rhaglen astudio arfaethedig y person ifanc a'i hyd. Dylai hyn gynnwys manylion trylwyr o'r holl elfennau achrededig a heb eu hachredu sy'n rhan o'r rhaglen astudio ym mhob blwyddyn academaidd arfaethedig, yn cynnwys y dyddiad cychwyn a gorffen cysylltiedig. Yn achos darpariaeth achrededig, nodwch y credydau am y flwyddyn a chyfanswm credydau'r rhaglen gyfan yn glir. Yn achos darpariaeth heb ei hachredu, dylech gynnwys y ddarpariaeth neu nifer y nodau a ddisgwylir.

Corff Dyfarnu (os yn berthnasol)	Rhaglen Astudio (elfennau achrededig a heb eu hachredu), yn cynnwys unrhyw lefel a/neu gredydau hysbys cysylltiedig (lle bo'n berthnasol)	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen
<i>E.e. Edexcel</i>	<i>Enw'r dysgu achrededig a'r credydau cysylltiedig</i>	<i>DD/MM/BB</i>	<i>DD/MM/BB</i>
<i>E.e. Heb eu hachredu</i>	<i>Enw'r dysgu heb ei achredu a'r credydau cysylltiedig</i>	<i>DD/MM/BB</i>	<i>DD/MM/BB</i>

**Sylwadau Ychwanegol:** Dylai hyn gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol berthnasol sy'n benodol i'r rhaglen arfaethedig uchod. Er enghraifft, esboniad o lefel y dysgu a gynigir o gymharu â dysgu/cyflawniadau blaenorol y person ifanc.

Os nad yw hyd y rhaglen astudio (i gyd) yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru<sup>10</sup>, dylid rhoi rhesymau i egluro pam mae angen hyd gwahanol.

*Gweler canllawiau polisi Llywodraeth Cymru ar hyd astudio. Pan fo'r cyfnod astudio yn fwy na dwy flynedd bydd angen darparu rhesymau eithriadol ynglŷn â gallu'r person ifanc i ddysgu a thystiolaeth wrthrychol i ddangos na ellir darparu'r ddarpariaeth angenrheidiol a nodwyd gan raglen astudio 2 flynedd. Dylai hyn gynnwys enghraifft y gellir ei harddangos o sut y byddai'r rhaglen arfaethedig yn cael ei darparu fel arfer dros gyfnod o 2 flynedd i'r cohort cyffredinol o bobl ifanc y mae'r sefydliad AB arbenigol yn ei dderbyn fel arfer.*

A oes lle ar gael/wedi'i gadw yn y sefydliad AB arbenigol: (*dileer fel sy'n briodol*)

OES

NAC OES

### Deilliannau disgwylidig

Esboniwch sut y bydd y rhaglen astudio arfaethedig yn diwallu anghenion addysg a hyfforddiant y person ifanc i'w helpu i gyflawni ei ddeilliannau dymunol a'i ddyheadau i'r dyfodol.

*Dylai'r sefydliad AB arbenigol nodi'n benodol sut y bydd y rhaglen astudio arfaethedig yn diwallu'r anghenion addysg a hyfforddiant a nodwyd yn y Cynllun Dysgu a Sgiliau. Dylai'r sefydliad AB arbenigol hefyd nodi sut y bydd y rhaglen arfaethedig yn helpu'r person ifanc i gyflawni ei ddyheadau i'r dyfodol.*

### Cynllunio pontio

Beth yw'r trefniadau ar gyfer cynllunio pontio?

*Crynowch y trefniadau pontio arfaethedig y bydd angen i'r person ifanc eu cwblhau cyn cychwyn yn y sefydliad AB arbenigol, a'r cynllun ar gyfer yr adeg pan fydd yr unigolyn yn gadael y lleoliad ar ôl cwblhau ei raglen astudio.*

### Manylion ffioedd

Oriau cymorth a chostau cysylltiedig addysg	Cymhareb Tiwtor/ Myfyriwr	Oriau Uniongyrchol yr wythnos	Cyfradd yr Awr	Cost Flynyddol
Nodwch gyfanswm yr oriau cyswllt:				

<sup>10</sup> Mae canllawiau polisi Llywodraeth Cymru 'Sicrhau darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol' ar gael yn:

<https://llyw.cymru/sicrhau-addysg-ol-16-i-bobl-ifanc-ag-anawsterau-dysgu-mewn-sefydliadau-addysg-bellach-arbenigol>

<i>Er enghraifft:</i> 10 awr o ddarpariaeth addysg 10 awr o alluogwr addysg	1:1 2.1	10 20	xx xx	xx xx
<b>Cyfanswm</b>				<b>£</b>

<b>Oriau cymorth a chostau cysylltiedig gofal cymdeithasol</b>	<b>Cymhareb Tiwtor/ Myfyriwr</b>	<b>Oriau Uniongyrchol yr wythnos</b>	<b>Cyfradd yr Awr</b>	<b>Cost Flynyddol</b>
Nodwch gyfanswm yr oriau cyswllt:  <i>Er enghraifft:</i> 10 awr o ofal personol XX awr o gymorth gyda gweithgareddau sgiliau bywyd personol bob dydd	1:2	5	xx	xx
<b>Cyfanswm</b>				<b>£</b>

<b>Oriau cymorth a chostau cysylltiedig gofal iechyd</b>	<b>Cymhareb Tiwtor/ Myfyriwr</b>	<b>Oriau Uniongyrchol yr wythnos</b>	<b>Cyfradd yr Awr</b>	<b>Cost Flynyddol</b>
Nodwch gyfanswm yr oriau cyswllt:  <i>Er enghraifft:</i> XX awr o gymorth meddyg/arbenigwr meddygol XX awr o gwrsela XX awr o gymorth emosiynol XX awr o gymorth ymddygiadol XX awr o therapi arall				
<b>Cyfanswm</b>				<b>£</b>

<b>Gorbenion</b>	<b>Cost £</b>
Rhestrwch unrhyw orbenion sy'n gysylltiedig â chost lleoliad y person ifanc a lle bo'n bosibl rhwch y manylion h.y. costau addysg / llety ac ati.	
<b>Cyfanswm</b>	<b>£</b>

<b>Cyfarpar</b>	<b>Cost £</b>
Nodwch anghenion a chostau cyfarpar y person ifanc	

(mae'n rhaid nodi'r rhesymau'n glir yn yr adroddiad asesu cychwynnol).	
<b>Cyfanswm</b>	<b>£</b>

<b>Cyfanswm Costau:</b>	<b>£</b>
-------------------------	----------

**Manylion cyswllt**

Enw	
Swydd	
Dyddiad	



## Ffurflen adrodd cynnydd

**Dylai sefydliadau AB arbenigol ddefnyddio'r ffurflen hon i gyflwyno adroddiadau cynnydd ar ddiwedd y tymor academaidd cyntaf ac ar ddiwedd y flwyddyn academaidd i Lywodraeth Cymru ar gyfer pob blwyddyn academaidd y mae'r person ifanc yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Dylai'r sefydliad AB arbenigol lenwi a chyflwyno'r ffurflen hon yn electronig, trwy Egress Switch, i'n blwch negeseuon e-bost: [post16aln@llyw.cymru](mailto:post16aln@llyw.cymru)**

Enw'r person ifanc	<i>Enw Llawn</i>
Enw'r sefydliad AB arbenigol	<i>Enw Llawn</i>

### Cynnydd hyd yma

Nodwch y cynnydd a'r cyflawniadau hyd yma yn erbyn y rhaglen astudio y cytunwyd arni.

*Os yw dysgu achrededig yn rhan o'r rhaglen astudio y cytunwyd arni, dylai cynnydd gynnwys y credydau sydd wedi'u cyflawni neu wedi'u cyflawni'n rhannol a'r rhai nad ydynt wedi'u cychwyn eto. Os yw dysgu heb ei achredu yn rhan o'r rhaglen astudio y cytunwyd arni, dylai cynnydd nodi'r nodau heb eu hachredu (neu nifer y nodau) sydd wedi'u cyflawni neu wedi'u cyflawni'n rhannol a'r nodau heb eu hachredu (neu nifer y nodau) nad ydynt wedi'u cychwyn eto. Os nad yw'r nodau wedi'u nodi, dylid darparu canran cwblhau.*

<b>Rhaglen Astudio (elfennau achrededig a heb eu hachredu)</b>	<b>Cynnydd hyd yma</b>	<b>Dyddiad cyflawni / dyddiad cyflawni disgwyliedig</b>
<i>Enw'r dysgu achrededig a'r credydau cysylltiedig</i>	<i>Wedi'i gyflawni / wedi'i gyflawni'n rhannol / heb ei gychwyn eto</i>	<i>DD/MM/BB</i>
<i>Enw'r dysgu heb ei achredu a'r credydau cysylltiedig</i>	<i>Wedi'i gyflawni / wedi'i gyflawni'n rhannol / heb ei gychwyn eto</i>	<i>DD/MM/BB</i>



<p>Ydy'r person ifanc ar y trywydd iawn i gwblhau'r rhaglen astudio y cytunwyd arni cyn dyddiad gorffen disgwylidig y rhaglen? (<i>dileer fel sy'n briodol</i>)</p>	<p>YDY NAC YDY</p> <p>Os 'NAC YDY', rhaid rhoi'r rhesymau isod</p>
<p><i>Os nad yw'r person ifanc yn gwneud y cynnydd a ddisgwyliwyd, rhowch y rhesymau pam a chadarnhewch pa gamau sy'n cael eu cymryd i helpu'r person ifanc i gyflawni'r rhaglen astudio y cytunwyd arni o fewn yr amserlenni disgwylidig.</i></p>	

### Trefniadau Pontio

<p>Darparwch y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd trefniadau/cynlluniau sy'n ceisio helpu'r person ifanc i bontio o'r sefydliad AB arbenigol i'w gyrchfan arfaethedig. Cofiwch gynnwys manylion sut mae'r sefydliad AB arbenigol yn helpu'r person ifanc gyda'r pontio hwn ac unrhyw fanylion am gyfraniad asiantaethau eraill megis gwasanaethau cymdeithasol, byrddau iechyd, Gyrfa Cymru ac eraill. Dylai gwybodaeth ymwneud yn benodol â'r person ifanc.</p>

### Manylion cyswllt

Enw	
Swydd	
Dyddiad	

**Bydd angen i bob adroddiad cynnydd gael ei gyflwyno o fewn mis i ddiwedd y tymor academiaidd cyntaf ac o fewn mis cyn cwblhau'r flwyddyn academiaidd.**



## Ffurflen Gwneud Cais am Newid

**Bydd angen i unrhyw newidiadau i ddarpariaeth a gytunwyd fod yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru<sup>11</sup>. Ni fydd Llywodraeth Cymru fel arfer yn ystyried unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth os yw'n effeithio ar y cyfnod gwreiddiol a gytunwyd. Os gwneir cais i newid darpariaeth a gytunwyd, dylai'r sefydliad AB arbenigol gwblhau a anfon y ffurflen hon yn electronig, drwy Egress Switch, i'n blwch post: [post16aln@llyw.cymru](mailto:post16aln@llyw.cymru).**

Enw'r person ifanc	<i>Enw llawn</i>
Rhif cyfeirnod unigryw	<i>Darperir gan y tîm ADY ÔI-16</i>
Enw'r sefydliad AB arbenigol	<i>Enw llawn</i>

### Diben y cais

Nodwch y newid arfaethedig y gofynnir amdano <i>(dileer fel y bo'n briodol)</i>	RHAGLEN ASTUDIO  LEFEL O GYMORTH  Y DDAU
--	--

### Newid(iadau) arfaethedig i'r rhaglen astudio a gytunwyd

Nodwch y newidiadau arfaethedig y gofynnir amdanynt a'r cyfnod, h.y. beth sy'n cael ei ychwanegu a/neu eu ddileu o'r rhaglen astudio a gytunwyd.			
Corff dyfarnu (os yn berthnasol)	Rhaglen astudio (elfennau wedi'u hachredu a heb eu hachredu), gan gynnwys unrhyw lefel a/neu greydau cysylltiedig (lle bo'n berthnasol)	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen

<sup>11</sup> Mae canllawiau polisi Llywodraeth Cymru 'Sicrhau darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol' ar gael yn:

<https://llyw.cymru/sicrhau-addysg-ol-16-i-bobl-ifanc-ag-anawsterau-dysgu-mewn-sefydliadau-addysg-bellach-arbenigol>

## Newid(iadau) arfaethedig i lefel y cymorth

Nodwch isod unrhyw newidiadau arfaethedig sy'n angenrheidiol i lefel y cymorth ar gyfer y person ifanc a'r costau cysylltiedig.

Oriau o gymorth addysgol a chostau cysylltiedig	Cymhareb tiwtor/myfyriwr	Oriau uniongyrchol yr wythnos	Cyfradd fesul awr	Cost flynyddol
Nodwch cyfanswm yr oriau cyswllt: •				
<b>Cyfanswm</b>				<b>£</b>

Oriau o gymorth o ran gofal cymdeithasol a chostau cysylltiedig	Cymhareb tiwtor/myfyriwr	Oriau uniongyrchol yr wythnos	Cyfradd fesul awr	Cost flynyddol
Nodwch cyfanswm yr oriau cyswllt: •				
<b>Cyfanswm</b>				<b>£</b>

Oriau o gymorth o ran gofal iechyd a chostau cysylltiedig	Cymhareb tiwtor/myfyriwr	Oriau uniongyrchol yr wythnos	Cyfradd fesul awr	Cost flynyddol
Nodwch cyfanswm yr oriau cyswllt: •				
<b>Cyfanswm</b>				<b>£</b>

<b>Gorbenion</b>	<b>Cost £</b>
Nodwch unrhyw orbenion sy'n gysylltiedig â chost lleoliad y person ifanc a, lle'n bosibl, rhwch ddadansoddiad, h.y. costau byrddio / addysg etc.	
<b>Cyfanswm</b>	<b>£</b>

<b>Cyfarpar</b>	<b>Cost £</b>
Nodwch anghenion y person ifanc o ran cyfarpar a'r gost (dylid nodi'r rhesymau'n glir yn yr adroddiad asesu cychwynnol).	
<b>Cyfanasm</b>	<b>£</b>

<b>Cyfanswm cost y lleoliad:</b>	<b>£</b>
----------------------------------	----------

## Y rhesymau dros y newid(iadau) arfaethedig y gofynnir amdanynt

Nodwch resymeg clir a chryno ar gyfer unrhyw newidiadau arfaethedig y gofynnir amdanynt, ac atodwch wybodaeth ategol lle bo angen.	
<i>Os yw'r newid(iadau) yn ymwneud â'r rhaglen astudio, rhaid i'r newid(iadau) a'r rhesymau drostynt fod yn gysylltiedig â'r anghenion addysgol a hyfforddiant a nodwyd, fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Sgiliau a Dysgu'r person ifanc.</i> <i>Os yw'r newid(iadau) arfaethedig yn ymwneud â lefel y cymorth, cadarnhewch pa drafodaethau a gafwyd gyda'r gwasanaethau cymdeithasol/byrddau iechyd ynghylch y gofynion arfaethedig o ran cymorth a'r costau cysylltiedig.</i> <i>Os oes angen trefniadau pontio er mwyn i'r person ifanc allu cael y newid arfaethedig i'w ddarpariaeth, dylid nodi gwybodaeth am y trefniadau hyn yma.</i>	
Nodwch y dyddiad y byddai angen i'r newid arfaethedig ddod i rym	DD/MM/BB

## Manylion cyswllt

Enw	
Dynodiad	
Dyddiad	

**Bydd angen i bob cais i wneud *newid(iadau)* i ddarpariaeth a gytunwyd gael eu cyflwyno yn ystod tymor astudio cyntaf y person ifanc yn unrhyw flwyddyn academaidd.**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Ffurflen hysbysu am ddigwyddiad

**Os bydd rhywbeth yn digwydd mewn perthynas â pherson ifanc sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ar raglen astudio y cytunwyd arni, bydd angen hysbysu Llywodraeth Cymru yn syth neu cyn gynted â phosibl. Dylai'r sefydliad AB arbenigol lenwi a chyflwyno'r ffurflen hon yn electronig, trwy Egress Switch, i'n blwch negeseuon e-bost: [post16aln@llyw.cymru](mailto:post16aln@llyw.cymru)**

Enw'r person ifanc	<i>Enw Llawn</i>
Enw'r sefydliad AB arbenigol	<i>Enw Llawn</i>

### Manylion y Digwyddiad

<i>Darparwch holl fanylion perthnasol y digwyddiad. Dylai hyn gynnwys unrhyw ddyddiadau a gwybodaeth berthnasol am y digwyddiad ac unrhyw gamau a gymerwyd. Os yw trydydd parti wedi bod yn rhan o'r digwyddiad, rhowch fwy o fanylion (e.e. gweithiwr cymdeithasol, cynghorydd gyrfaoedd, yr heddlu ac ati).</i>	
<i>At ddiben y ffurflen hon, dim ond os oes gan y digwyddiad y potensial i effeithio ar gynnydd a/neu bresenoldeb y person ifanc ar y rhaglen astudio y cytunwyd arni, megis salwch neu faterion diogelu, y mae angen hysbysu Llywodraeth Cymru.</i>	
<i>Os yw trydydd parti wedi bod yn rhan o'r digwyddiad, rhowch fanylion cyswllt perthnasol.</i>	<i>ENW SWYDD ASiantaeth RHIF FFÔN E-BOST (os yw ar gael)</i>

### Manylion cyswllt

Enw	
Swydd	
Dyddiad	



## Ffurflen absenoldeb neu dynnu'n ôl

**Os bydd person ifanc yn absennol neu'n tynnu'n ôl o raglen astudio y cytunwyd arni, rhaid hysbysu Llywodraeth Cymru yn syth neu cyn gynted â phosibl. Dylai'r sefydliad AB arbenigol lenwi a chyflwyno'r ffurflen hon yn electronig, trwy Egress Switch, i'n blwch negeseuon e-bost: [post16aln@llyw.cymru](mailto:post16aln@llyw.cymru)**

Enw'r person ifanc	<i>Enw Llawn</i>
Enw'r sefydliad AB arbenigol	<i>Enw Llawn</i>

### Diben yr hysbysiad

Nodwch pa un o'r canlynol sy'n berthnasol i'r hysbysiad: <i>(dileer fel sy'n briodol)</i>	ABSENOLDEB	TYNNU'N ÔL
--	------------	------------

### Rheswm dros yr absenoldeb neu dynnu'n ôl

Rhowch resymau dros yr absenoldeb neu dynnu'n ôl. <i>Dylai hyn gynnwys unrhyw ddyddiadau a gwybodaeth berthnasol am yr absenoldeb neu dynnu'n ôl ac unrhyw gamau a gymerwyd. Os yw trydydd parti wedi bod yn rhan o'r absenoldeb neu dynnu'n ôl, rhowch fwy o fanylion (e.e. gweithiwr cymdeithasol, cynghorydd gyrfaedd, yr heddlu ac ati).</i>	
Os yw trydydd parti wedi bod yn rhan o'r absenoldeb neu dynnu'n ôl, rhowch fanylion cyswllt perthnasol.	<i>ENW SWYDD ASiantaeth RHIF FFÔN E-BOST (os yw ar gael)</i>

### Manylion cyswllt

Enw	
Swydd	
Dyddiad	



## Ffurflen cais am estyniad

**Bydd angen i unrhyw geisiadau am estyniad i raglen astudio y cytunwyd arni fod yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru<sup>12</sup>. Os yw cais am estyniad i raglen astudio y cytunwyd arni yn cael ei wneud, dylai'r sefydliad AB arbenigol lenwi a chyflwyno'r ffurflen hon yn electronig, trwy Egress Switch, i'n blwch negeseuon e-bost: [post16aln@llyw.cymru](mailto:post16aln@llyw.cymru)**

Enw'r person ifanc	<i>Enw Llawn</i>
Enw'r sefydliad AB arbenigol	<i>Enw Llawn</i>

### Manylion y cais am estyniad

Nodwch hyd yr estyniad y gwneir cais amdano:	Dyddiad Cychwyn: <i>DD/MM/BB</i> Dyddiad Gorffen: <i>DD/MM/BB</i>  <i>Rhaid i gyfnod yr estyniad sydd ei angen fod yn gymesur â'r hyn sydd ar ôl i'w gwblhau.</i>
--	---

Nodwch elfennau penodol y rhaglen astudio y cytunwyd arni y mae'r cais am estyniad yn ymwneud â nhw, a hyd arfaethedig yr estyniad. *Dylai hyn gynnwys manylion lefel uchel diwygiedig yr holl elfennau achrededig a'r elfennau heb eu hachredu sydd ar ôl i'w cwblhau.*

<b>Corff Dyfarnu</b> (os yn berthnasol)	<b>Rhaglen Astudio</b> (elfennau achrededig a heb eu hachredu), yn cynnwys unrhyw lefel a/neu greydau/unedau hysbys cysylltiedig (lle bo'n berthnasol)	<b>Dyddiad Cychwyn</b>	<b>Dyddiad Gorffen</b>
		<i>DD/MM/BB</i>	<i>DD/MM/BB</i>

<sup>12</sup> Mae canllawiau polisi Llywodraeth Cymru 'Sicrhau darpariaeth i bobl ifanc ag anawsterau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol' ar gael yn:

<https://llyw.cymru/sicrhau-addysg-ol-16-i-bobl-ifanc-ag-anawsterau-dysgu-mewn-sefydliadau-addysg-bellach-arbenigol>

<p>A fydd gofynion cymorth y person ifanc yn aros yr un fath dros y flwyddyn i ddod? (<i>dileer fel sy'n briodol</i>)</p>	<p>BYDDANT      NA FYDDANT</p> <p>Os 'NA FYDDANT', llenwch a chyflwynwch ffurflen <i>Gwneud Cais am Newid</i>.</p>
---	--

### Rhesymau dros y cais am estyniad

<p>Darparwch sail resymegol glir a chryno dros unrhyw gais arfaethedig am estyniad, a chofiwch gynnwys gwybodaeth ategol os oes angen.</p>	
<p><i>Nodwch y rhesymau pam yr ystyrir bod angen estyniad i raglen astudio y cytunwyd arni, gan amlinellu unrhyw gamau a gymerwyd gan y sefydliad AB arbenigol i leihau'r angen am estyniad. Rhaid i'r rhesymau dros estyniad fod yn ymwneud â diwallu'r anghenion addysg a hyfforddiant dynodedig, fel y nodir yng Nghynllun Dysgu a Sgiliau y person ifanc. Dylai gwybodaeth am unrhyw opsiynau amgen a ystyriwyd mewn trafodaeth â chynghorydd gyrfaoedd y person ifanc gael ei nodi hefyd, ynghyd â'r rhesymau pam y cawsant eu gwrthod. Os yw'r ddarpariaeth yn cael ei hariannu ar y cyd gan asiantaethau perthnasol, cadarnhewch pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda gwasanaethau cymdeithasol/byrddau iechyd yn ymwneud â'r cais arfaethedig am estyniad a'r costau cysylltiedig.</i></p>	
<p>Ydy'r rhesymau a nodir uchod yn cael eu cefnogi gan adroddiadau cynnydd y person ifanc a gyflwynwyd gan y sefydliad AB arbenigol?</p>	<p>YDYN      NAC YDYN</p>

### Manylion cyswllt

Enw	
Swydd	
Dyddiad	

**Bydd angen i bob cais am estyniad gael ei gyflwyno erbyn 30 Ebrill ym flwyddyn astudio olaf y person ifanc, neu ar ddiwedd ei dymor academiaidd olaf ond un os dechreuodd y person ifanc ei ddarpariaeth y tu allan i'r flwyddyn academiaidd safonol.**





## Ffurflen cyrchfan

***Pan fo person ifanc sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yn cwblhau rhaglen astudio y cytunwyd arni, neu'n tynnu'n ôl o'r rhaglen honno, rhaid i'r sefydliad AB arbenigol gyflwyno gwybodaeth am gyrchfan y person ifanc. Rhaid i'r sefydliad AB arbenigol lenwi a chyflwyno'r ffurflen hon yn electronig, trwy Egress Switch, i'n blwch negeseuon e-bost: [post16aln@llyw.cymru](mailto:post16aln@llyw.cymru)***

Enw'r person ifanc	<i>Enw Llawn</i>
Enw'r sefydliad AB arbenigol	<i>Enw Llawn</i>

### Rhaglen astudio

<i>Nodwch raglen astudio'r person ifanc a'i hyd. Dylai hyn adlewyrchu'r rhaglen astudio y cytunwyd arni fel y nodir ar y Ffurflen Awdurdodi Cyllid Myfyrwyr.</i>		
<b>Rhaglen astudio</b> (elfennau achrededig a heb eu hachredu), yn cynnwys unrhyw lefel a/neu greddyddau/nodau hysbys cysylltiedig (lle bo'n berthnasol)	<b>Wedi'i chwblhau</b>	<b>Dyddiad Cwblhau</b>
	<i>IE neu NA</i>	<i>DD/MM/BB</i>

<i>Esboniwch pa mor effeithiol oedd y rhaglen astudio y cytunwyd arni o ran galluogi'r person ifanc i gyflawni ei ddeilliannau dymunol a'i ddyheadau i'r dyfodol.</i>
<i>Dylai'r sefydliad AB arbenigol nodi'n benodol sut mae'r rhaglen astudio y cytunwyd arni wedi galluogi'r person ifanc i gyflawni ei ddeilliannau dymunol. Dylai'r sefydliad AB arbenigol nodi hefyd pa mor effeithiol oedd y trefniadau pontio a gynlluniwyd o ran hwyluso nodau cyrchfan y person ifanc. Os yw person ifanc wedi tynnu'n ôl o'r rhaglen astudio, dylai'r sefydliad AB arbenigol esbonio i ba raddau mae'r addysg a dderbyniwyd a'r cynlluniau ar gyfer pontio a drefnwyd wedi galluogi'r person ifanc i gyflawni ei ddeilliannau dymunol.</i>

## Cyrchfan

Ydy'r person ifanc wedi cael mynediad at gyngor gyrfaoedd? ( <i>dileer fel sy'n briodol</i> )	YDY NAC YDY Os 'NAC YDY', nodwch y rhesymau isod.

Rhowch fanylion cyrchfan y person ifanc ar ôl iddo adael y sefydliad, os yw'n hysbys ( <i>dileer fel sy'n briodol</i> ).	
Darpariaeth amgen yn y sefydliad AB arbenigol presennol:	<i>Manylion y ddarpariaeth</i>
Sefydliad AB arall:	<i>Enw'r sefydliad a manylion unrhyw ddarpariaeth</i>
Sefydliad addysg uwch:	<i>Enw'r sefydliad a manylion unrhyw ddarpariaeth</i>
Cyflogaeth:	<i>Enw'r cyflogwr a manylion unrhyw ddarpariaeth cymorth</i>
Dysgu Seiliedig ar Waith:	<i>Enw'r darparwr a manylion unrhyw ddarpariaeth cymorth</i>
Byw'n annibynnol/byw'n lled-annibynnol:	<i>Manylion cyfeiriad a manylion unrhyw ddarpariaeth cymorth</i>
Byw'n annibynnol â chymorth:	<i>Manylion cyfeiriad a manylion unrhyw ddarpariaeth cymorth</i>
Lleoliad preswyl tymor hir:	<i>Manylion cyfeiriad a manylion unrhyw ddarpariaeth cymorth</i>
Person ifanc yn dychwelyd adref:	<i>Manylion cyfeiriad a manylion unrhyw ddarpariaeth cymorth</i>
Arall (nodwch)	

Ydy'r cyrchfan a nodir yn cyfateb i ddyhead disgwylidig y person ifanc i'r dyfodol? ( <i>dileer fel sy'n briodol</i> )	YDY NAC YDY
--	-------------

## Manylion cyswllt

Enw	
Swydd	
Dyddiad	

**Dylai'r holl wybodaeth am gyrchfan gael ei chyflwyno erbyn yr hanner tymor ar ôl i'r person ifanc gwblhau ei raglen astudio**